# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Mawrth, 14eg Mai, 2024 at 10.00 am**

| **Councillors Present** | **Officers in Attendance** |
|---|---|
| County Councillor Alistair Neill, (Chairman)<br><br>County Councillors: Paul Pavia, Peter Strong, Ann Webb and Su McConnel | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Richard Jones, Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data<br>Hannah Carter, Dadansoddwr Perfformiad |

**APOLOGIES:** County Councillors Jill Bond, Laura Wright and Catherine Fookes

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Dim

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Dim aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Darpariaeth Dysgu Ychwanegol/Canolfannau Adnoddau Arbenigol – Craffu ar Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol/Canolfannau Adnoddau Arbenigol Cyngor Sir Fynwy**

   Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Martyn Groucutt a Dr Morwenna Wagstaff yr adroddiad ar ganlyniad adolygiad o'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol (SRB) a rhoddasant ddiweddariad ar gynnydd argymhellion yr adolygiad cyn ateb cwestiynau'r Aelodau gyda Jacquelyn Elias a Hayley Page.

   **Pwyntiau allweddol a godwyd gan yr Aelodau:**

   - Mae'r adroddiad yn cyfeirio at rai anghysondebau ar draws yr SRBs a amlygwyd drwy'r adolygiad, felly sut yr eir i'r afael â hyn i sicrhau bod dysgu'n cael ei gymhwyso ym mhob SRB, gan osgoi loteri cod post.
   - Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y gwerthusiad a welwch o'ch blaen heddiw a gynhaliwyd gan y tîm a'r adolygiad a gynhaliwyd gan Estyn?
   - Mae pryder ynghylch y niferoedd cynyddol o bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen darpariaeth ADY cymhleth. Byddai'n ddiddorol clywed eich barn ar pam mae niferoedd cynyddol a pha effaith y mae hynny'n ei gael ar ein hangen i ddarparu ar gyfer angen cynyddol.
   - A allwch chi egluro sut mae'r cytundebau partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgolion sy'n cynnal y ddarpariaeth yn gweithio a'r hyn y maent yn bwriadu ei gyflawni.
   - A allwch chi ymhelaethu ar y problemau o ran capasiti yn Ysgol Gynradd Pembroke ac Ysgol Gyfun Trefynwy a'r effaith ar y disgyblion.
   - Mewn perthynas â'r gwelliant sydd ei angen o ran y ddarpariaeth mewn ysgol benodol, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r SRBs lle

disgwylir i welliannau gael eu gwneud. Dywedodd y Prif Swyddog fod cynnal hunanwerthusiad yn galluogi'r awdurdod lleol i ddeall unrhyw broblemau y gallai fod angen gweithio arnynt gydag ysgolion fel y gellir eu cefnogi.

- A allwch ymhelaethu ar y capasiti a'r galw a ragwelir ar gyfer y canolfannau adnoddau arbenigol ar draws y sir a'r goblygiadau ariannol i'r awdurdod lleol.
- Sut mae arweinwyr SRB yn cydweithio i gynhyrchu fersiwn graidd o ddogfennaeth?
- Roedd ymholiad ynghylch geiriad y trefniant arlwyo yn yr adroddiad.
- Beth yw effaith COVID-19 ar y ddarpariaeth SRB a'r cymorth i ddysgwyr a staff?
- Beth yw'r trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr sy'n symud o SRB i ddarpariaeth prif ffrwd neu ôl-16?
- I ba raddau y mae rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad a'r broses adborth?
- Eglurwch aliniad y ddarpariaeth SRB â'r diwygiadau i ADY a'r cod ymarfer newydd.
- Beth yw'r cynlluniau ar gyfer datblygu a gwella'r ddarpariaeth SRB yn y dyfodol?
- Beth a olygir gan yr amrywioldeb mewn cyllid ac atebolrwydd yn yr adroddiad.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad gan ganmol gwaith y tîm SRB a'r ysgolion. Diolchodd i'r swyddogion am eu cyflwyniad a'u hymatebion. Daeth i'r casgliad y dylid symud yr adroddiad ar yr adolygiad o'r canolfannau adnoddau arbenigol gyda'r argymhellion, ac y byddai rhai cwestiynau a phwyntiau a godwyd gan aelodau'r pwyllgor yn cael sylw mewn adroddiad dilynol ymhen 12 mis. Gofynnir am ragor o wybodaeth am gapasiti a fforddiadwyedd y model SRB, cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth, ac mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrwydd nad oes unrhyw ysgolion unigol yn methu yn eang ac yn gyson.

**<u>CAM GWEITHREDU:</u>**

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion ar oblygiadau ariannol y galw cynyddol am ddarpariaeth SRB a'r senarios isel, canolig ac uchel.

4. **<u>Cefnogi Dysgwyr Bregus – Craffu ar Gefnogaeth i Ddysgwyr Bregus (dulliau ystyriol o drawma, rhaglen Cynorthwyydd Llythrennedd Emosiynol, gwasanaeth addysgu arbenigol Cyngor Sir Fynwy).</u>**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet Martyn Groucutt a Dr Morwenna Wagstaff ddiweddariad i'r Pwyllgor ar effeithiolrwydd nifer o'n dulliau o gefnogi anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed yn ein hysgolion a'n lleoliadau, cyn ateb cwestiynau'r Aelodau.

Pwyntiau allweddol a godwyd gan yr Aelodau:

Beth yw'r tir cyffredin a'r cysylltiad rhwng dysgwyr agored i niwed a darpariaeth dysgu ychwanegol ac a yw'r cyllid yn cael ei gysylltu hefyd?

Soniasoch am blant sydd wedi dioddef profiadau trawmatig yn ystod plentyndod a'r hyfforddiant a gynigir, a yw hyn yn cynnwys rhieni a gofalwyr a beth yw'r ddarpariaeth ymarferol sy'n galluogi plant i adeiladu gwytnwch?

O ystyried nad yw llythrennedd emosiynol yn rhywbeth hawdd i'w fesur, yr ydych wedi cyfeirio at hyn fel rhywbeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond a ydym yn derbyn na allwch fesur effeithiolrwydd y cynlluniau hyn i raddau? Eglurwch pa feini prawf yr ydych yn eu defnyddio i fesur effeithiolrwydd.

Beth yw'r cysylltiadau rhwng gwahanol asiantaethau ar lefel strategol yn ogystal â lefel ymarfer er mwyn cefnogi plant a theuluoedd sydd wedi profi trawma?

A oes perygl y byddwn yn colli cynorthwywyr addysgu hyfforddedig sy'n darparu cymorth o ran llythrennedd emosiynol i ddysgwyr sy'n agored i niwed, a sut y byddwn yn lliniaru'r risg honno. Gydag 16 o ysgolion o bosibl yn symud i ddiffyg ariannol eleni yn ôl adroddiad monitro cyllideb mis 9, mae'n codi pryder ynghylch sut y bydd ysgolion yn lliniaru'r risg.

A allwch chi esbonio'r rhesymau dros y rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth addysgu arbenigol?

Un o'r risgiau a nodwyd yr ydych wedi sôn amdano yw'r ddibyniaeth ar arian grant. Sut y byddwch yn rheoli hynny ac a ydych wedi sicrhau cyllid ar gyfer y blynyddoedd sydd y ddod? A oes gennych ddigon o adnoddau o ran seicolegwyr addysg?

Diddorol oedd gweld bod y ffigur o 500 o staff MCC wedi manteisio ar yr hyfforddiant staff cyfan ac mae hynny'n ymddangos yn nifer fawr. A yw ein holl staff addysgu wedi cael yr hyfforddiant hwnnw?

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Wagstaff am fynychu a chyflwyno llawer iawn o wybodaeth yn y ddau adroddiad a gofynnodd iddi gyfleu diolchiadau'r Pwyllgor i'r tîm.

**CAM GWEITHREDU:**

Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad ar y rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth addysgu arbenigol a sut mae'n cael ei reoli.

5. **<u>Diweddaru Cofrestr Risg – Diweddaru aelodau ar Gofrestr Risg y Cyngor a chytuno ar gyfer unrhyw feysydd craffu yn y dyfodol.</u>**

Cyflwynodd Richard Jones a Hannah Carter y gofrestr risg i'r Pwyllgor. Cafodd yr eitem hon ei chynnwys er mwyn galluogi'r Aelodau i nodi risgiau allweddol yr hoffent graffu ymhellach arnynt, a gwahodd yr Aelod Cabinet perthnasol i gyfarfod yn y dyfodol. Bu iddynt ymateb i bwyntiau allweddol a wnaed gan yr Aelodau.

**Pwyntiau allweddol a godwyd gan yr Aelodau:**

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod rhai risgiau yn parhau i fod yn uchel yn y gofrestr, er gwaethaf y camau lliniaru a gymerwyd. Er enghraifft, mae risg 11 sy'n cyfeirio at ddatgarboneiddio fel pryder, oherwydd er gwaethaf y camau a gymerwyd, nid yw'n newid lefel y risg.
- Mae risg 7 yn cyfeirio at ansefydlogrwydd yn y farchnad o ran plant sy'n wynebu risg ac mae risg 8 yn cyfeirio at oedi wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion hŷn. Mae'r ddwy risg yn peri pryder mawr. Nid oes unrhyw gyfeiriad at yr hyn sy'n digwydd a sut mae hyn yn cael ei fonitro.
- Codwyd fod y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r risg y bydd rhai gwasanaethau'n dod yn anghynaliadwy'n ariannol fel maes yn peri pryder mawr.
- Holodd y Pwyllgor ynghylch y prif ffactorau sy'n cyfrannu at y risg uchel o niwed sylweddol i blentyn neu oedolyn oherwydd methiant penodol yn y trefniadau diogelu.
- Mae'r camau y mae'r cyngor yn eu cymryd i leihau cyfraddau absenoldeb uchel plant sy'n agored i niwed yn faes o ddiddordeb.

- Tynnwyd sylw hefyd at sut mae'r cyngor yn monitro cynnydd y cynllun datgarboneiddio ac effaith newid hinsawdd ar ei wasanaethau a'i asedau.
- Nodwyd yr heriau a'r cyfleoedd y mae'r cyngor yn eu hwynebu mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd i Gymru a'r bartneriaeth dysgu a sgiliau rhanbarthol fel maes risg allweddol y dylid canolbwyntio arno.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod tua hanner cant y cant o'r risgiau yn y gofrestr yn parhau'n uchel ar ôl camau lliniaru ac nid yw'n glir pa gamau pellach a fydd yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn. Bydd y Pwyllgor yn anfon y sylwadau at y Cabinet ac yn cysylltu'n anffurfiol i lunio rhestr fer o risgiau penodol i'w cynnwys yn y flaen raglen waith craffu.

**CAM GWEITHREDU:** Diweddaru'r flaenraglen waith gyda risgiau penodol y bydd y pwyllgor yn craffu'n fanwl arnynt.

6. **Blaenraglen Gwaith a Rhestr Weithredu y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg**

   Cynnwys meysydd risg yn y flaenraglen waith a thrafod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Pobl er mwyn trefnu cyfarfod craffu ar y cyd ar 22ain Gorffennaf 2024 i graffu ar Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru.

7. **Cynllunydd Gwaith y Cabinet a'r Cyngor**

   Nodwyd y cynllunydd.

8. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024.**

   Cadarnhawyd y cofnodion.

9. **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 18 Mehefin 2024**

   18fed Mehefin 2024.

The meeting ended at **Time Not Specified**